

Newyddion Datgeliad y DBS – Gorffennaf 2014

Helo a chroeso i rifyn Gorffennaf o Newyddion Datgeliad y DBS.

Y mis yma, rydym yn awyddus i ddelio â rhai trafferthion y gwyddom y mae rhai ohonoch yn eu cael wrth ffonio ein canolfan alwadau. Oherwydd galw mawr, nid yw galwadau yn cael eu hateb mor fuan ag arfer ac fe wyddom fod hyn yn achosi rhwystredigaeth.

Rydym yn cymryd camau i ddatrys hyn yn fuan ac i ddychwelyd i'r safonau uchel yr ydych yn gyfarwydd â nhw. Rydym wedi bod yn gwranddo arnoch i ddeall y materion a'r rhesymau dros y cynnydd mewn galwadau, ac yn defnyddio'ch adborth gwerthfawr i sefydlu prosesau i'w trwsio. Maddeuwch i ni yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich adborth yn allweddol – mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod sut ydych chi'n meddwl ydyn ni'n gwneud a beth allwn ni wneud yn well. Gallwch hefyd ein helpu trwy ymweld â'n gwefan ar gyfer ymholiadau cyffredinol neu wybodaeth, bydd hyn yn helpu rhyddhau'r rhai sy'n ateb ein galwadau i ddelio â phobl sydd ag ymholiadau mwy penodol.

Sylwer hefyd ein bod ar fin dechrau ymarfer adnewyddu ffurflenni cais. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn y rhifyn hwn ac ar ein [gwefan](#).

Diolch,

Ian Johnston

Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)

Ffurflenni newydd ar eu ffordd yn fuan

Rydym eisoes wedi rhoi gwybod i chi am y newidiadau i ddeddfwriaeth a arweiniodd at [hidlo hen a mân gollfarnau](#).

Ar 12 Mawrth 2014, addaswyd y ffurflen gais datgeliad i adlewyrchu'r newid hwn ac mae cwestiwn e55 nawr yn gofyn:

'A oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddon, rhybuddiadau neu rybuddiadau terfynol na ellid eu heithrio yn unol â chanllaw presennol?'

Os ydych chi eisoes wedi archebu ffurflenni cais gwag ers 12 Mawrth, dylech sicrhau'ch bod yn dechrau defnyddio'r rhain ar unwaith a dinistrio pob fersiwn hŷn o'r ffurflenni cais.

Mae'n hawdd adnabod y ffurflen hon gan fod y cyfeirnod ar y gornel dde uchaf yn dechrau gydag **F01**. Mae'r cyfeirnod ar yr hen ffurflen yn dechrau gydag **F00**.

Rydym yn ymwybodol nad yw nifer fawr o Gyrrff Cofrestredig wedi archebu ffurflenni cais ers 12 Mawrth 2014. Rydym yn anfon cyflenwad newydd o ffurflenni cais i bob Corff Cofrestredig yn seiliedig ar y nifer o ffurflenni cais papur a gyflwynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. **Mae hyn yn golygu nad oes angen i Gyrrff Cofrestredig archebu ffurflenni newydd gan y DBS gan ein bod eisoes yn trefnu hyn ar eich cyfer.**

Oherwydd y nifer fawr o geisiadau sydd angen eu dosbarthu ar draws y rhwydwaith Cyrff cofrestredig, gall gymryd hyd at 14 wythnos cyn i chi dderbyn y ffurflenni newydd. Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich ffurflenni newydd, dechreuwch eu defnyddio ar unwaith a dinistrio'ch cyflenwad cyfan o'r hen un. **Yn y cyfamser, defnyddiwch eich cyflenwad cyfredol o ffurflenni cais nes bydd y ffurflenni newydd yn cyrraedd.**

Nid yw ffurflenni cais ffôn (TDAF) wedi eu heffeithio gan eu bod yn cynnwys y geiriad e55 newydd. Gellir adnabod ffurflenni TDAF gan fod y cyfeirnod yn dechrau gyda 00 (yn hytrach nag F00 neu F01).

Bydd y ffurflenni newydd yn cael eu cyfeirio at y Prif Arwyddwr a'u hanfon at y cyfeiriad arferol y mae ffurflenni cais gwag yn cael eu hanfon atynt.

Cael atebion i'ch ymholiadau

Mae rhai ohonoch yn ei chael yn anodd cael ateb gennym ar y ffôn mor fuan ag y byddech yn ei ddisgwyl. Mae hyn o ganlyniad i alw mawr ar ein canolfan alwadau ac mae'n ddrwg gennym am unrhyw anghyfleustra a achoswyd. Mae nifer o'r ymholiadau rydym yn delio â nhw yn ymwneud â chwestiynau cyffredinol, y gellir eu hateb trwy edrych ar ein [gwefan](#). Byddai'n dda pe gallech edrych yn gyntaf ar y dolenni isod i gael ateb i'ch ymholiad yno. Bydd hyn yn helpu ein gweithredwyr ffôn i flaenoriaethu galwadau ar gyfer pobl sydd angen help penodol gyda cheisiadau.

- [Olrhain eich cais ar-lein](#)
- [Tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddar](#) neu [ddysgu mwy am y gwasanaeth](#)
- [Adnewyddu eich tanysgrifiad i'r Gwasanaeth Diweddar](#)
- [Canfod a ydych yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS](#)
- [Cyfeirio rhywun at y DBS](#)

Rydym yn gwneud sawl peth i'n helpu i ymateb i'r galw cynyddol ar ein canolfan alwadau a Gwasanaethau Cwsmeriaid, ond byddem yn gwerthfawrogi eich help i wneud hyn trwy weithio gyda ni i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.

Tystysgrifau coll

Rydym yn derbyn nifer gynyddol o alwadau parthed dystysgrifau sydd wedi eu colli ar y ffordd rhwng yr ymgeisydd a chi.

Er ein bod yn deall pam fod angen i chi weld y dystysgrif – gan i newidiadau yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 olygu nad yw Cyrff Cofrestredig bellach yn derbyn copi – byddwch yn ymwybodol na allwn ddarparu copïau newydd o dystysgrifau a gollwyd neu a ddinistriwyd.

Os yw'r dystysgrif wedi ei cholli, bydd angen cyflwyno cais newydd – bydd hyn yn achosi oedi yn eich proses recriwtio.

I helpu osgoi'r broblem hon, gallwch adolygu'ch prosesau i sicrhau fod ymgeiswyr newydd yn derbyn eu dystysgrifau yn ôl gennych chi, a'u cynghori y dylent gymryd camau priodol i sicrhau fod eu dystysgrif yn eich cyrraedd os na allant fynychu'n bersonol.

Mae mynd ar-lein yn arbed amser i chi: nodyn atgoffa

Defnyddio ein gwasanaethau ar-lein yw'r ffordd gyflymaf o olrhain ceisiadau a darllen y newyddion diweddaraf, wrth sicrhau eich bod yn cael y lefel ragorol o wasanaeth yr ydych yn ei disgwyl gennym.

Dyma nodyn i'ch atgoffa sut i gael mynediad at y gwasanaeth a'i fanteision:

Tracio ar-lein

I [dracio ceisiadau ar-lein](#) rydych angen cyfeirnod y cais – rhif ‘F’ ar gyfer ceisiadau papur, y rhif yn cychwyn gyda ‘00’ ar gyfer ceisiadau ffôn, neu’r rhif ‘e’ ar gyfer ceisiadau ar-lein – a dyddiad geni’r ymgeisydd.

Mae ein [gwasanaeth tracio ar-lein](#) un clic i ffwrdd, ar gael 24 awr y dydd ac yn rhoi canlyniad ar unwaith. Gallwch hefyd ei ddefnyddio i [dracio ceisiadau lluosog](#) ac archebu ffurflenni cais gwag.

Newyddion a diweddariadau

Mae ein newyddion a diweddariadau ar dudalennau’r DBS y [wefan GOV.UK](#). Mae ein hafan yn cael ei diweddarau’n rheolaidd ac mae’n canllaw ar gael ar-lein.

Pan fydd stori newyddion yn cael ei hychwanegu neu ddiweddarau, gallwch ddewis cael hysbysiad e-bost gan GOV.UK. Mae nifer o bobl eisoes yn gwneud hyn ac yn gweld ei bod yn ffordd syml a hawdd o gael gwybod y diweddaraf. Peidiwch â cholli cyfle:

- Ewch i’n [hafan](#) a sgrolio i lawr y dudalen nes eich bod yn gweld y blwch ‘Diweddaraf’.
- Cliciwch ar y ddolen ‘e-bost’ a dilyn y cyfarwyddiadau i greu tanysgrifiad e-bost, y gallwch ei reoli fel bo angen. Syml!

Nodiadau atgoffa'r Gwasanaeth Diweddarau

- Mae gan ymgeiswyr fwy o amser i ymuno â’r Gwasanaeth Diweddarau gyda’u tystysgrif erbyn hyn – 19 diwrnod calendr o’r dyddiad cyhoeddi ar y dystysgrif.
- Wrth danysgrifio i’r Gwasanaeth Diweddarau, nodwch eich Rhif Adnabod unigryw a’i gadw’n ddiogel. Ni ddylech rannu’r Rhif Adnabod hwn gydag unrhyw un gan y byddwch yn ei ddefnyddio i gael mynediad at eich cyfrif Gwasanaeth diweddarau ar-lein.
- Os ydych chi wedi colli’ch tystysgrif, ac wedi tanysgrifio i’r Gwasanaeth Diweddarau, bydd angen i chi wneud cais am dystysgrif newydd, ychwanegu hynny i’ch cyfrif ac yna ddileu’ch hen dystysgrif o’ch cyfrif Gwasanaeth Diweddarau. Ni allwn anfon tystysgrif newydd atoch.

Eich adborth

[Mis diwethaf](#), fe ddefnyddiom eich adborth i arddangos eich syniadau a phrofiadau o’r Gwasanaeth Diweddarau. Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu ein hymchwil ar eich profiadau cyffredinol o’n gwasanaeth Datgeliad.

Y canlyniadau

Ein rôl

Roedd y rhan fwyaf ohonoch yn cytuno ein bod yn bodloni’ch anghenion a disgwyliadau; cymaint ag 85% o’r 300 o Gyrrff Cofrestredig ac 81% o’r 2000 o ymgeiswyr a holom. Rydym yn dal i chwarae rôl bwysig o ddiogelu plant a phobl fregus, ac rydych yn credu fod gwasanaeth yn bwysig. Darllenwch fwy am ein diben, cenhadaeth ac amcanion yn ein [Cynllun Strategol](#).

Ein gwasanaethau

Roedd lefelau boddhad yn bositif iawn – roedd 89% o'r ymgeiswyr a holwyd yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniont ers iddynt wneud cais am wiriad. Ar y cyfan, roedd 75% o'r ymgeiswyr yn fodlon gyda pha mor gyflym oeddynt yn derbyn eu gwiriad. Roedd tua 20% o'r rhai oedd yn anfodlon yn teimlo nad oeddynt wedi cael hysbysiad digonol ynglŷn â chyfnod yr oedi – roedd hyn o'r amser pan gwblhawyd y cais gyda'r Corff Cofrestredig i'r pwynt pan maent yn derbyn eu tystysgrif. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn ac yn gweithio ar wella ein prosesau yn y maes hwn.

Roeddech yn arbennig o hapus gyda:

- [y gwasanaeth tracio ar-lein](#)
- [Newyddion Datgeliad y DBS](#)
- [e-Swmp](#)
- [gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg](#)

Roedd gan y rhai a holwyd ddiddordeb mewn datblygu cynnyrch a gwasanaethau atodol gyda ni – yn arbennig tystysgrifau ar-lein, gwiriad rhestr wahardd yn unig, cyfrifon ar-lein a gwiriadau ar gyfer lleoliadau tramor. Mae dros hanner y Cyrff Cofrestredig eisiau i ni gyflwyno tystysgrif ddigidol ar-lein gan y byddai'n cyflymu'r broses recriwtio. Rydym yn y camau cynnar o raglen foderneiddio ond mae hyn yn rhywbeth rydym yn ymchwilio iddo i weld a yw'n ymarferol.

Ein gwybodaeth a chyfathrebu

Mae'r rhan fwyaf o Gyrrff Cofrestredig a dros hanner ymgeiswyr wedi ymweld â'n gwefan i gael arweiniad neu i olrhain cais – roedd 90% o'r ymgeiswyr hynny ac 81% o'r Cyrff Cofrestredig yn hapus gyda hyn. Roedd eraill yn credu y byddai gwella llywio a darparu mwy o wybodaeth yn ei wella. Rydym yn amlygu'r canllaw mwyaf poblogaidd ar ein [hafan](#) i ddelio â'ch awgrymiadau llywio a hygyrchedd.

Mae'n well gennych i ni gysylltu â chi trwy e-bost, ond mae'n well gan rai ohonoch gyswllt dros y ffôn o hyd:

- Dywedodd 91% Gyrrff Cofrestredig fod ein staff yn gwrtais, cymwynasgar ac yn rhoi ymatebion personol.
- Roedd 75% yn teimlo y deliwyd â'u hymholiad y tro cyntaf, fel y gwnaeth 69% o ymgeiswyr.
- Roedd 81% o ymgeiswyr hefyd yn fodlon gyda'r help a chanllaw a dderbyniwyd, felly hefyd 84% o Gyrrff Cofrestredig.

Mae'r canlyniadau hyn yn cyflwyno adborth calonogol. Ond mae lle i wella o hyd. Roedd rhai ohonoch yn teimlo y gellid gwella cyfathrebu amserau prosesu cais a pherfformiad – nodwyd hyn hefyd yn yr arolwg Newyddion Datgeliad y DBS, y byddwn yn ei drafod yn ein rhifyn nesaf.

Ein hymateb i'ch adborth

Rydym yn monitro themâu cyffredin ac anghenion cwsmeriaid i wella a datblygu ymatebion unigol fydd yn bodloni eich anghenion y tro cyntaf. Mae hyn yn ein galluogi i ddiweddarau ac egluro canllaw y gallwch ei weld ar ein [gwefan](#). Mae gennym hefyd grŵp gwelliannau gwasanaeth cwsmeriaid, sy'n defnyddio eich adborth i nodi ac argymhell gwelliannau i lunio'r busnes ar eich cyfer chi. Yn yr

wythnosau nesaf, nod ein grŵp gwella gwasanaeth cwsmeriaid yw cyhoeddi llythyr templed y gall sefydliadau lawrlwytho o'n [gwefan](#). Byddwch yn gallu addasu'r llythyr i gyd-fynd â'ch anghenion ac yna ei gynnwys yng ngham terfynol eich proses ymgeisio DBS. Bydd y llythyr yn helpu rheoli disgwyliadau'r ymgeiswyr – er enghraifft, pa mor hir allai cais gymryd a sut i olrhain ei gynnydd, yn ogystal â'u cyfeirio at ragor o wybodaeth. Pan fydd sefydliad yn gofyn i rywun ymgeisio am wiriad DBS mae'n fuddiol i bawb, yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf, i gael gwybodaeth glir ynglŷn â'r rheswm pam eu bod angen datgelu unrhyw hanes collfarnau, pa wiriadau sydd eu hangen, ein proses a manylion am ein cynnyrch a gwasanaethau.

Diolch i chi eto am eich mewnbwn a byddwn yn dal i'ch diweddarau am welliannau i'n gwasanaethau ac ymatebion i'ch adborth.

Cyfeiriadau dan ofal

Yn ein [rhifyn Ebrill](#), fe roddom wybodaeth i chi am recriwtio staff medrus o dramor yn gyflym ac effeithiol. I'w gwneud mor hawdd â phosibl i ymgeiswyr tramor dderbyn eu Tystysgrif DBS, gallwch ofyn iddynt ystyried defnyddio cyfeiriad 'dan ofal' yn y Deyrnas Unedig.

Ers cyhoeddi'r erthygl, rydym wedi nodi achosion ble gellid camddefnyddio cyfeiriadau 'dan ofal' ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig. Ni ddylai Cyrff Cofrestredig ddefnyddio cyfeiriadau 'dan ofal' heblaw am ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw dramor. Rydym yn monitro defnydd o gyfeiriadau 'dan ofal' a bydd y tîm Rheoli Cyrff Cofrestredig yn cysylltu â chi os yr ymddengys eu bod yn cael eu camddefnyddio.

Ble fo'n berthnasol, mae angen darparu'r cyfeiriad 'dan ofal' yn adran b (enghraifft 1) y ffurflen gais, gan nodi ei fod yn gyfeiriad 'dan ofal'. Yna gellir darparu cyfeiriad cyfredol yr ymgeisydd yn adran c (enghraifft 2) a bydd angen ei wirio yn y ffordd arferol.

b current address

Please give details of your current address.
This is the address to which all correspondence will be sent.

32 address c / o 1 4 M I L K Y W A Y

33 town/city B R I G H T O N

34 county

35 UK postcode B N 1 1 N D 36 country U N I T E D K I N G D O M

37 at address since 0 7 2 0 1 4

registered body use only
current address verified?

C other addresses

You must provide all other addresses where you have lived in the last 5 years. There must be no gaps in dates, however, overlapping dates are acceptable. Use a continuation sheet if necessary, available from www.homeoffice.gov.uk/dbs. If not applicable, go to section e.

38 address FLAT 100 TRIVENI APARTMENTS
PITAMPURA

39 town/city NEW DELHI

40 county

41 UK postcode 42 country INDIA

43 dates from and to 092012 072014

Newidiadau i Orchymyn eithriadau ROA 1975

O 1 Gorffennaf 2014, rydym wedi gweld rhai newidiadau i'r Gorchymyn Eithriadau. Mae'r addasiadau hyn yn cwmpasu Cymru a Lloegr.

Mae'r swyddi a restrir isod yn awr wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Eithriadau Deddf Adsefydlu Troseddwr (ROA) ac yn gymwys am wiriad lefel safonol y DBS:

- Gweithredwyr cyfreithiol siartredig nawr yn cynnwys gweithredwyr eraill Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (unigolion awdurdodedig CILEx) a rheolwyr cymeradwy CILEx.
- Gwarchodwyd Arbennig a'r rhai sydd dros 18 yn byw yn yr un cartref â'r gwarchodwr arbennig arfaethedig.
- Oherwydd y newidiadau sy'n digwydd ar draws y gwasanaethau prawf, mae'r gorchymyn wedi ei addasu i gynnwys y personau hynny sydd wedi eu hawdurdodi i ddarparu gwasanaethau prawf.
- Y rhai sy'n gweithio yn y mathau canlynol o sefydliadau, ble mae ganddynt gyswllt â phlant o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau neu mae ganddynt fynediad at wybodaeth sensitif neu personol am blant:
 - Gwasanaethau neu asiantaethau mabwysiadu, yn cynnwys gwasanaethau mabwysiadu gwirfoddol.
 - Gwasanaethau neu asiantaethau maethu.
 - Cartrefi Plant neu ganolfannau teulu preswyl.

I fod yn gymwys am wiriad DBS lefel manwl, rhaid i'r swydd fod wedi ei chynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwr ac yn rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol).

Edrychwch ar y [dogfennau gweithlu](#) ar gyfer y mathau o swyddi sy'n gymwys ar gyfer gwiriadau lefel fanwl.

Mae yna newidiadau pellach ar y gweill i ddod ym Medi 2014 yn ymwneud â chreu asiantaethau gwarchod plant. Bydd yr addasiad yn y Gorchymyn yn gofyn i bawb sydd eisiau darparu gofal plant ar eiddo domestig gofrestru gydag asiantaeth gofal plant yn hytrach na Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg.

Mae'r newidiadau hefyd yn galluogi'r Prif Arolygydd i gyflawni gwiriadau DBS ar y cyfarwyddwyr a swyddogion eraill yr asiantaeth, a hefyd ar y rhai a gyflogir gan yr asiantaeth.

Bydd asiantaethau gofal plant yn gallu cyflawni gwiriadau ar y rhai sy'n gweithio i asiantaeth yn y cymhwyster canlynol:

- rheoli'r asiantaeth
- aseswyr sy'n mynd i gartrefi'r gofalwr plant i asesu'r gofal ac addysg a ddarperir gan y gofalwr plant.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r addasiadau [yma](#).

Bydd y tabl canllaw cymhwyster yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac, wrth gwrs, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw addasiadau pellach.

Clywed y diweddaraf

Am wybodaeth ar gadw'ch manylion yn gyfredol, gweler yr adran 'newid eich manylion cofrestru' ar y dudalen [canllaw ar gyfer cyflogwyr](#), neu [rifyn Mai Newyddion Datgeliad y DBS](#).